



DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	Dadansoddwr Data ac Ymchwil
Cyflog	Band C £28,254 to £34,272
Yn atebol i'r	Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus
Math o Gontract	Amser llawn neu ran-amser (4 diwrnod yr wythnos) – parhaol
Gwyliau Blynyddol	31 diwrnod a 10 diwrnod o wyliau cyhoeddus a diwrnodau braint
Y Cynllun Pensiwn	Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil
Lefel Ofynnol y GDG	Archwiliad Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
Lleoliad	Mynediad i swyddfa yng Nghaerdydd – gweithio adre ar hyn o bryd

CRYNODEB O'R RÔL

Bydd y Dadansoddwr Data ac Ymchwil yn sicrhau bod modd i'r Comisiynydd gael gafael ar ffynonellau data priodol a'u defnyddio fel gwybodaeth, data a thystiolaeth o safon fel sail ar gyfer ei rhaglen gwaith.

Bydd deiliad y swydd yn dadansoddi ffynonellau data, arwain ar y gofynion data a thystiolaeth ar gyfer yr adroddiad blynyddol 'cyflwr y genedl', datblygu dangosyddion a mesurau i asesu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r rhaglen waith a pharatoi deunyddiau briffio am ddata a gwaith ymchwil manwl ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

PWRPAS Y RÔL

1. Sicrhau bod modd i'r Comisiynydd gael gafael ar ffynonellau data priodol a'u defnyddio fel gwybodaeth, data a thystiolaeth o safon fel sail ar gyfer ei rhaglen waith.
2. Dadansoddi ffynonellau data er mwyn adrodd ar amgylchiadau pobl hŷn yng Nghymru ac olrhain hynny dros amser.

3. Cymharu a dadansoddi data ac ymchwil i gymharu amgylchiadau pobl hŷn yng Nghymru â gweddill y DU, yn ogystal ag yn rhyngwladol.
4. Datblygu dangosyddion a mesurau i asesu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r rhaglen waith, a chyfrannu at adroddiadau rheolaidd ynghylch canlyniadau ac effaith.
5. Rhoi cyngor ynghylch ymchwil ansoddol a meintiol â phobl hyn, a dylunio a chynnal y gwaith ymchwil hwnnw pan fo hynny'n briodol.
6. Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus a Arweinyddion y Comisiynydd i ddarganfod bylchau yn y data sy'n berthnasol i bobl hyn yng Nghymru
7. Rhoi cyngor ynghylch comisiynu ymchwil gan ddarparwyr allanol a datblygu a chynnal cysylltiadau rhagorol â'r gymuned ymchwil.
8. Datblygu a chynnal perthnasoedd gyda'r gymuned ymchwil a rheolwyr/ceidwaid data mewn mudiadau allweddol megis ONS a Llywodraeth Cymru
9. Dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru
10. Darparu cymorth ymchwil a dadansoddi i'r Comisiynydd yn ôl yr angen, ar gyfer adroddiadau, deunyddiau briffio, areithiau a blogiau.
11. Paratoi deunyddiau briffio am ddata ac ymchwil hwylus ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
12. Cydweithio'n agos â chydweithwyr yn y sefydliad i sicrhau bod ymchwil a data'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol yn ein holl waith.

Dyletswyddau cyffredinol sy'n gyffredin i bob Disgrifiad Swydd

Dangos ymrwymiad i hawliau dynol, cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig.

Cydweithio'n agos ag aelodau eraill o staff a mynd ati i gyfrannu at weithgorau a chyfarfodydd mewnol.

Cynrychioli'r Comisiynydd yn gadarnhaol ac yn broffesiynol bob amser. Cymryd rhan mewn cyfleoedd ymgysylltu â phobl hŷn, gwybod y diweddaraf am faterion, pryderon a syniadau pobl hŷn er mwyn cyfrannu at ein gwaith a sut rydym yn ei gyflawni.

Sicrhau bod gwaith yn cydymffurfio â dyletswyddau statudol y Comisiynydd, gweithdrefnau rheolaeth fewnol, fformatau adrodd a pholisïau ee gweithdrefnau ariannol, GDPR, y cynllun cyhoeddi, y cynllun cydraddoldeb, y gweithdrefnau rheoli gwytodaeth, Safonau'r Gymraeg a pholisïau a gweithdrefnau diogelu.

Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill sy'n addas ar gyfer y raddfa, fel sy'n ofynnol o fewn rheswm.

**CAIFF CYNNWYS Y DDOGFEN HON EI ADOLYGU O DRO I DRO MEWN
YMGYNGHORIAD Â DEILIAD Y SWYDD. MAE'N BOSIB Y BYDD
DISGRIFIADAU SWYDD YN CAEL EU HADDASU I ADLEWYRCHU A CHOFNODI
NEWIDIADAU O'R FATH.**

MANYLEB Y PERSON – Dadansoddwr Data ac Ymchwil

Priodweddau	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau	<ul style="list-style-type: none"> • Gradd neu gymhwyster lefel proffesiynol o ddisgyblaeth berthnasol neu brofiad gwaith perthnasol sy'n cyfateb i hyn. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cymhwyster ôl-radd
Profiad	<ul style="list-style-type: none"> • Profiad amlwg o weithio'n effeithiol mewn rôl ddadansoddol. • Gwybodaeth am fethodolegau ymchwil ansoddol a meintiol a phrofiad o'u defnyddio. • Sgiliau a gwybodaeth gadarn ym maes technoleg gwybodaeth, a phrofiad o ddefnyddio meddalwedd cronfa ddata a phecynnau arbenigol fel SPSS • Profiad o gynhyrchu deunyddiau briffio ysgrifenedig a llafar manwl o safon uchel – ar fyr rybudd yn aml – o fewn amserlenni tyn ac mewn portffolio â blaenoriaethau sy'n newid 	<ul style="list-style-type: none"> • Profiad diweddar o weithio mewn rôl debyg yn y sector cyhoeddus yng Nghymru • Profiad o weithio gyda phobl hŷn neu ddealltwriaeth amlwg o'r materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru
Sgiliau	<ul style="list-style-type: none"> • Gallu dadansoddi ac adrodd ar ddata meintiol ac ansoddol. • Gallu ysgrifennu mewn modd clir a chryno sy'n dwyn perswâd mewn amrywiaeth o fformatau, a hynny ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd mewnol ac allanol. • Gallu i adeiladu perthnasau, gweithio a dylanwadu ar amrediad o randdeiliaid a gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol ar lefel uchel • Gallu gweithio fel aelod o dîm, yn ogystal ag ar eich liwt eich hun, i gyflawni amcanion polisi a dylanwadu y cytunir arnynt. • Gallu rhoi sylw rhagorol i fanylion. • Sgiliau TG ardderchog a'r gallu i ddefnyddio amrediad o becynnau TG 	<ul style="list-style-type: none"> • Gallu cyfathrebu'n fedrus yn y Gymraeg gydag aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid allanol